INFO 06/07/02 **13**
GORFFENNAF 2006
ER GWYBODAETH

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD CYMRU

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n deillio o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

2. Gwahoddir y Bwrdd i **nodi** yr adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. **Nid oes** angen unrhyw gamau weithredu.

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Cysylltwch â:

Joy Whinney Ffôn: 029 2067 8903
Ebost: joy.whinney@foodstandards.gsi.gov.uk

Helen George Ffôn: 029 20678907
Ebost: helen.george@foodstandards.gsi.gov.uk

INFO 06/07/02 **13**
GORFFENNAF 2006
ER GWYBODAETH

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD CYMRU

Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori

1. Cynhaliodd Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru gyfarfod caeëdig ar 6 Gorffennaf yng Nghaerdydd. Neilltuwyd rhan o'r cyfarfod i barhau â sesiwn gynllunio diwrnod cwrdd i ffwrdd y Pwyllgor a gynhaliwyd fis diwethaf. Ymhlith y materion a drafodwyd yn ystod y sesiwn hon roedd ailedrych ar faterion cyfansoddiadol y Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd amserlen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol, sy'n cynnwys amrywiaeth o wahanol arddull a fformatau ar gyfer cyfarfodydd, a gaiff eu treialu gan y Pwyllgor.

2. Trafododd y Pwyllgor hefyd y camau gweithredu sydd ar waith i sicrhau bod y Pwyllgorau Cynghori a'r Bwrdd yn cydweithio mor effeithiol â phosibl.

3. Cafodd aelodau hefyd frîff gan Dr Edward Guy o Uned Cyfeirio Tocsoplasma y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, ar y potensial ar gyfer tocsoplasmosis a gludir gan fwyd.

4. Cynhaliwyd y cyfarfod agored, y diwrnod wedyn, yn Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu, Powys. Roedd hon yn sesiwn agored â thema, sef "Prydau Ysgol". Darparwyd cyfres o gyflwyniadau. Roedd y cyflwyniad rhagarweiniol, a ddarparwyd gan aelod o'r Pwyllgor a Llywydd Sefydliad Maetheg Prydain, yn cynnwys trosolwg o ofynion deietegol cyffredinol plant o oedran ysgol. Daeth hwn â diffygion hysbys yn y deiet i'r amlwg.

5. Dilynwyd hyn gan ddau gyflwyniad gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddodd y cyntaf y wybodaeth ddiweddaraf am *Cynllun Gweithredu Bwyd a Ffitrwydd i Blant a Phobl Ifanc* y Cynulliad a gafodd ei lansio ar 29 Mehefin. Mae'r cynllun hwn wedi'i baratoi i nodi gwaith sydd ei angen yn awr ac yn y dyfodol i wella maeth a lefelau gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rhoddodd yr ail gyflwyniad drosolwg o *Blas am Oes: Cynigion Bwyd mewn Ysgolion.* Mae'r cynnig hwn, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad yng Nghymru ar 29 Mehefin, yn ceisio sylwadau ar y ddarpariaeth fwyd yng Nghymru drwy gydol y diwrnod ysgol llawn, ac yn cynnig cyfres o argymhellion ar hyn. Mae prif argymhellion yr adroddiad yn canolbwyntio ar safonau maeth a safonau yn ymwneud â bwyd ar gyfer prydau ysgol yng Nghymru.

Edrych tua'r Dyfodol.

6. Nodwch fod yr eitemau a restrir yn eitemau dros dro, ac felly gellir eu newid.

DYDDIAD	LLEOLIAD	EITEMAU AR YR AGENDA
5 Medi 6 Medi	Cyfarfod briffio caeedig Caerdydd Cyfarfod Busnes agored Caerdydd	I gynnwys: HACCP Scores on the doors Adolygiad o'r Cytundeb Fframwaith Thema Cynllun Strategol: Diogelwch bwyd
6 Tachwedd 7 Tachwedd	Cyfarfod busnes caeedig Caerdydd Cyfarfod busnes agored Caerdydd	Yn cwmpasu materion ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol

Gweithgareddau Eraill

7. Roedd Mr Gardner yn aelod o banel a sefydlwyd i nodi ymgeiswyr i lenwi 3 swydd wag ar Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gododd ar 1 Gorffennaf 2006. Mynychodd y tri ymgeisydd llwyddiannus gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar 6/7 Gorffennaf.

8. Ar 15 Mehefin, cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor â Chadeirydd Cyngor Defnyddwyr Cymru a thrafodwyd amrywiaeth o faterion o ddiddordeb cyffredin yn cynnwys labelu bwyd, arolygon maeth, ymgysylltu â defnyddwyr ac atgyfnerthu ag asid ffolig.